

Tasg 1

Gyrfaoedd ym maes gwleidyddiaeth

1.

Beth yw'r 'allwedd' i gael cynnig gwaith ym myd gwleidyddiaeth, yn ôl Sara Williams?

Crynowch gyngor Sara Williams i Dylan Huw (y darn cyn y pwyntiau bwled) i ychydig frawddegau.
Dechreuwch fel hyn: Mae Sara Williams yn cyngori Dylan Huw i....

2.

Dewch o hyd i ddwy ffordd o ddweud 'rwy'n dilyn gwleidyddiaeth' o'r negeseuon e-bost.

3.

Mae Dylan Huw yn dweud "... ond fyddwn i ddim eisiau bod yn wleidydd, chwaith."

Mewn grwpiau, dewch o hyd i wybodaeth am fywyd gwleidyddion. Rhannwch y dasg o ddod o hyd i wybodaeth rhyngoch chi.

Mae gwybodaeth am y Cynulliad yng Nghaerdydd ar y wefan Gymraeg:

<http://www.dygynulliad.org/gwybodaeth-am-y-cynulliad/>

Mae gwybodaeth am San Steffan ar y wefan Saesneg www.parliament.uk. Felly bydd rhaid trawsieithu'r wybodaeth.

<http://www.parliament.uk/about/mps-and-lords/members/mps/>

<http://www.parliament.uk/about/mps-and-lords/members/pay/mps/>

<http://www.parliament.uk/about/faqs/house-of-commons/faqs/business-faq-page/>

Nodwch fanteision ac anfanteision isod:

Manteision bod yn wleidydd	Anfanteision bod yn wleidydd

4.

Mae Sara Williams yn dweud, “Mae rhai pobl yn astudio gwleidyddiaeth yn y brifysgol cyn cael swydd yn y maes hwn, ond does dim rhaid o gwbl.”

Mae rhai pobl ym myd gwleidyddiaeth, a rhai gwleidyddion sy’n ein cynrychioli, heb gael profiad o unrhyw faes arall, heblaw am wleidyddiaeth. Beth yw eich barn am hyn?

Ymchwiliwch:

Ydy eich Aelod Cynulliad a’ch Aelod Seneddol wedi gweithio mewn maes arall cyn bod yn wleidyddion?

Os ydyn nhw wedi gweithio mewn maes arall, sut mae’r profiad hwnnw wedi bod yn ddefnyddiol iddyn nhw, yn eich barn chi?

Darllenwch beth yw barn Carwyn Jones, y Prif Weinidog am hyn yn ei atebion i holiadur Gweiddi yn y rhifyn hwn.

5.

Pa un o’r swyddi y mae Sara Williams yn eu hawgrymu sy’n apelio fwyaf atoch chi? Rhowch resymau pam mae’r swydd honno’n apelio.

6.

Ydych chi’n cefnogi plaid wleidyddol neu fudiad yn barod? Sut datblygodd eich diddordeb? Dywedwch wrth eraill yn y grŵp/y dosbarth.

7.

Beth yw cyngor Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, am y ffordd orau o fynd i mewn i fyd gwleidyddiaeth? Darllenwch ei ateb i gwestiwn yn holiadur Gweiddi yn y rhifyn hwn.

8.

Enwau Lluosog ar Amrantiad!

Heriwch aelodau grŵp arall i roi lluosog yr enwau unigol hyn heb oedi am fwy nag eiliad! Rydych chi wedi darllen yr enwau lluosog i gyd yn y darn.

- swydd
- ymchwilydd
- asiant
- newyddiadurwr
- gwas sifil
- mater
- cyfrwng
- adroddiad
- etholaeth
- cynrychiolydd
- awr
- erthygl
- cyfweiliad
- papur newydd

- cyhoeddiad
- darllediad
- newydd
- polisi
- maes
- bywyd

9.

Drafftioch neges e-bost yn holi am faes sydd o ddiddordeb i chi. Defnyddioch ymadroddion o e-bost Dylan Huw os dymunoch.

At bwy y byddoch chi'n anfon y neges?

Anfonoch y neges go iawn a gweld pa ateb(ion) a gewch chi.